Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyhoeddwyd:** Awst 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 229A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol,
ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan KPMG ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion ac arsylwadau wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei phroses o bennu'r gyllideb ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r her sylweddol o fantoli'r gyllideb tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau | 12 |
| Mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn gadarn ar y cyfan a disgwylir i Raglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans gael effaith gadarnhaol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei amcanion a'i chynlluniau strategol | 13 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 19 |
| Ffi archwilio | 20 |
| Risgiau archwiliad ariannol | 21 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Ebrill 2014. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion ac arsylwadau wrth wneud hynny. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:
   - Targedau ariannol allweddol
   - Perfformiad ariannol 2012-13
   - Addasiadau o ran cyflwyniad a naratif
   - Datganiad Llywodraethu Blynyddol
   - Adroddiad Cydnabyddiaeth
7. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir mewn ffyrdd perthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 yn dilyn arian ychwanegol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a

Llywodraeth Cymru, adnoddau buddsoddi i arbed, a rhai enillion anghylchol ar ôl gwaredu asedau sefydlog.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd.

**10.** Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei phroses o bennu'r gyllideb ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r her sylweddol o fantoli'r gyllideb tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau:

- Er gwaethaf arian ychwanegol yn 2013-14, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld diffyg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Fel sy'n wir am y gymuned iechyd ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu nifer o heriau ariannol a heriau o ran adnoddau tra'n cydbwyso'r broses o drawsnewid gwasanaethau â'r gwaith o gynnal gwasanaethau. Byddai dyraniadau arian tymor canolig yn helpu gyda gwaith cynllunio ariannol a chyflawni nodau ehangach o ran moderneiddio gwasanaethau.

**11.** Mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn gadarn ar y cyfan a disgwylir i Raglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans gael effaith gadarnhaol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei amcanion a'i chynlluniau strategol.

- Mae prosesau sicrwydd a rheolaethau mewnol y Bwrdd yn gadarn ar y cyfan ac fe'u hategir gan brosesau craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Yng ngoleuni Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei strwythur llywodraethu er mwyn sicrhau ei bod mewn sefyllfa well i newid a diogelu cleifion.
- Gall cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau, yn enwedig ar lefel weithredol, effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni'r newid sylweddol y mae'r rhaglen ddiwygio yn galw amdano, a gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid, tra'n gwella perfformiad a diogelu cleifion.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwireddu rhai o fuddiannau'r strwythur sefydliadol diwygiedig, a oedd yn sicrhau bod penaethiaid gwasanaeth wedi'u cysoni'n well ag ardaloedd byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd barhau i gydweithio er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai yn fwy effeithiol a darparu gwasanaethau da i gleifion.
- Mae trefniadau ar waith yn yr Ymddiriedolaeth i gaffael pryderon defnyddwyr a nodi themâu sy'n dod i'r amlwg ac mae wedi gwneud cynnydd wrth gaffael gwybodaeth am brofiadau defnyddwyr er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y ffordd y mae'n defnyddio ac yn ymateb i'r thema a nodwyd.

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion gwaith archwilio Asesiad Strwythuredig blaenorol, er bod angen cymryd camau pwysig o hyd mewn rhai meysydd allweddol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth gadarnhau ei strategaethau craidd sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a sefydlu nifer o weithgorau er mwyn datblygu a gweithredu cynlluniau allweddol ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r cynlluniau hyn yn effeithiol a chyflawni'r newid a ddymunir yn her sylweddol.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll.

**12.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**13.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013.

**14.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**15.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth,
  a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ariannol, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**16.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**17.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**18.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

**19.** Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 y risgiau archwilio ariannol allweddol ar gyfer 2013.
Mae Atodiad 3 yn amlinellu ein casgliadau yn y meysydd hyn.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**20.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2012-13. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i llif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**21.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**22.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**23.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion ac arsylwadau wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir mewn ffyrdd perthnasol

**24.** Ni ddeuthum ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

**25.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar

30 Mai 2013. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi’r sylwadau archwilio a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Sylwadau archwilio

| Disgrifiad | Argymhelliad |
| --- | --- |
| **ARC Wrecsam**<br>Mae’r gwaith o ddatblygu ARC Wrecsam yn cael ei wneud ar y cyd ag Awdurdod Tân Gogledd Cymru.<br>Bu llawer o oedi mewn perthynas â’r prosiect hwn.<br>Costau cyfalaf y prosiect hwn ar 31 Mawrth 2013 oedd £3.8 miliwn a chyfran yr Ymddiriedolaeth o’r costau oedd £2.5 miliwn. Mae’r rhagdaliadau’n cynnwys £0.9 miliwn sy’n ddyledus gan yr awdurdod tân. | Er na nodwyd unrhyw faterion o ran gwerth cario’r asedau, nid yw’r cam adeiladu wedi dechrau eto. Dylai’r Ymddiriedolaeth barhau i fonitro’r prosiect a gweithio gyda’r awdurdod er mwyn bwrw ymlaen â’r gwaith o ddatblygu’r ARC. |
| **Ariannu'r Cynllun Ymddeol yn Gynnar Gwirfoddol**<br>Yn ystod 2012-13, cafodd yr Ymddiriedolaeth £0.8 miliwn i’w wario er mwyn arbed arian mewn perthynas â phecynnau’r Cynllun Ymddeol yn Gynnar Gwirfoddol.<br>Cawsom gadarnhad nad oes unrhyw amodau ynghlwm wrth yr arian hwn, ac na fydd angen ei ad-dalu yn ystod 2013-14, y byddai’n rhaid nodi hynny fel atebolrwydd. | Yn y dyfodol, dylai’r Ymddiriedolaeth sicrhau, os ceir arian ar gyfer cynlluniau tebyg, y caiff y telerau a’r amodau eu dogfennu’n glir a’u cytuno ymlaen llaw. |
| **Darparu ar gyfer costau dadfeilio**<br>Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer o orsafoedd ambiwlans a gaiff eu rhentu o dan brydlesi gweithredu.<br>Mae cytundeb o’r fath yn aml yn cynnwys cymal i unioni unrhyw ddadfeilio ar ddiwedd y brydles.<br>Ar ddiwedd y flwyddyn, asesir faint o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer costau dadfeilio. | Byddai’r Ymddiriedolaeth yn elwa ar ffurfioli’r broses o nodi a diweddaru gwarantau costau dadfeilio posibl ymhellach er mwyn sicrhau y gall fonitro unrhyw atebolrwydd yn y dyfodol. |

**26.** Fel rhan o’m harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i’r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31

Mawrth 2013, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; ac

- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**27.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd Ariannol a ddelir ar gyfer Ymddiriedolaethau bellach wedi'i gwblhau a chyflwynais farn archwilio ddiamod ar 7 Hydref 2013.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**28.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. Rwy'n cyflwyno adroddiad ar y rhain pan na fyddwch eisoes yn ymwybodol ohonynt neu lle y gallent fod yn symptomataidd o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol.

**29.** Yn dilyn fy adolygiad o Wasanaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd wedi cyrraedd Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru a bod rhai meysydd allweddol lle mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Cafodd y Siarter Archwilio Mewnol newydd ei mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth ar 30 Mai 2013 ac mae datblygiadau arfaethedig eraill eisoes yn mynd rhagddynt a fydd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol, ar gyfer Cymru gyfan.

**30.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'r gwaith hwn yn gyfystyr ag asesiad o'r trefniadau archwilio mewnol o dan Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o drefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'r asesiad hwn yn mynd y tu hwnt i'r gwaith a wneir gan archwilwyr allanol er mwyn dibynnu ar waith archwilio mewnol neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

**31.** Yn ogystal, nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

## Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 yn dilyn arian ychwanegol gan WHSSC a Llywodraeth Cymru, adnoddau buddsoddi i arbed, a rhai enillion anghylchol ar ôl gwaredu asedau sefydlog

**32.** Nododd yr Ymddiriedolaeth warged bach ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, sef £49,000.

**33.** Cyflawnwyd hyn yn bennaf am iddi lwyddo i negodi arian ychwanegol gan WHSSC a Llywodraeth Cymru (£4.3 million). Darparwyd yr incwm hwn fel arian diffyg ac fe'i cydnabuwyd yn ystod pum mis diwethaf 2012-13. Nid yw'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth wneud unrhyw ad-daliadau mewn perthynas â'r arian hwn.

**34.** Cafodd yr Ymddiriedolaeth hefyd £0.8 miliwn o adnoddau buddsoddi i arbed yn ystod y flwyddyn er mwyn ariannu VERS, a defnyddiwyd £0.4 miliwn o'r arian hwnnw.

**35.** Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth hefyd nifer o enillion anghylchol ar ôl gwaredu nifer o asedau sefydlog. Yr achos mwyaf sylweddol o'u plith oedd gwerthu Gorsaf Ambiwlans yr Wyddgrug a greodd enillion ar ôl gwaredu o £0.325 miliwn.

**36.** Yn 2012-13, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i arbed £5.85 miliwn yn erbyn targed o £7.97 miliwn. Oherwydd pwysau ariannol cynyddol yn ystod y flwyddyn (y manylir arnynt isod), bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddibynnu ar arian ychwanegol o £4.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwy mantoli'r gyllideb.

**37.** Yn ystod 2012-13, roedd lefel gyffredinol y gwariant ar gyflogau £5.6 miliwn yn fwy na'r gyllideb, gan gynnwys £8.3 miliwn o daliadau goramser. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw am wasanaethau y mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ei reoli, yn ogystal ag effaith amseroedd aros hirach am ambiwlans sy'n golygu bod nifer gynyddol o staff yn cael eu dal mewn lleoliadau heb allu ymateb i alwadau newydd. Ystyriodd yr Ymddiriedolaeth bod oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty wedi costio £3.7 miliwn yn ystod 2012-13

**38.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth danwariant o £1.1 miliwn mewn perthynas â gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, a hynny am fod gorbenion y brif swyddfa ganolog wedi'u rheoli'n dda drwy'r flwyddyn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**39.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Hyd yma, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol; a
- chynnydd yn erbyn meysydd i'w datblygu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y flwyddyn flaenorol.

**40.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei phroses o bennu'r gyllideb ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r her sylweddol barhaus o fantoli'r gyllideb tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau

### Er gwaethaf cael arian ychwanegol yn 2013-14, cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg bach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol

**41.** Ym mis Mawrth 2013, nododd yr Ymddiriedolaeth fwlch o £14.7 miliwn rhwng arian yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14, a'r amcangyfrifon gorau o bwysau costau a chostau datblygu gwasanaethau arfaethedig. Nododd yr Ymddiriedolaeth fod gwerth £5.7 miliwn o bwysau posibl o ran costau yn hanesyddol, y mae rhywfaint ohonynt y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth i raddau helaeth ac na fyddai'n gallu eu hariannu o'i dyraniad refeniw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cost oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty;
- cynnydd yn y galw am wasanaethau a fyddai'n galw am adnoddau staff ychwanegol; a
- chyflenwi yn ystod absenoldeb oherwydd salwch.

**42.** Er iddi sicrhau £7.5 miliwn o arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu her sylweddol i gyflawni ei tharged i fantoli'r gyllideb. Ar 31 Mawrth 2014, cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg bach o £0.1 miliwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2103-14.

**43.** Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG fantoli'r gyllideb bob blwyddyn ariannol, yn unol â'r diffiniad o warged neu ddiffyg sydd o fewn trothwy perthnasedd o £0.5 miliwn neu 0.5 y cant o incwm gweithredu. Os yw'r Ymddiriedolaeth o fewn y terfyn perthnasedd hwn, nid yw'n torri unrhyw ddyletswydd statudol os adenillir unrhyw ddiffyg o danwariant tebyg yn 2014-15, neu os oes ganddi gronfeydd wrth gefn digonol i dalu unrhyw ddiffyg. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cynnwys y diffyg hwn yn ei chynlluniau ariannol ar gyfer 2014-15 sy'n ariannol gytbwys ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2014. Mae'n aros i'r cynlluniau hyn gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, a phan fydd hynny wedi digwydd, bydd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei thargedau i fantoli'r gyllideb.

**44.** Mae gallu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei chynlluniau arbedion, a'i gallu i gadw o fewn cyllidebau targed, wedi effeithio ar ei sefyllfa ariannol. Ym mis Ionawr 2014, roedd gorwariant yn erbyn targedau cyllideb 2013-14 yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- Gorwariant cyffredinol o £6.1 miliwn ar gostau staff, a gwariant o £7.3 miliwn ar daliadau goramser. Mae salwch, galw ac oedi wrth drosglwyddo cleifion wedi effeithio ar lefel y goramser sydd ei hangen i gynnal gwasanaethau. Roedd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau ym mis Tachwedd 2013 £2.7

miliwn dros y gyllideb oherwydd costau cynnal a chadw'r fflyd uwch na'r disgwyl, a chynnydd yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd preifat a gwariant gweithredu clinigol er mwyn cynnal gwasanaethau.

**45.** Fel rhan o'i phroses o bennu'r gyllideb, nododd yr Ymddiriedolaeth yr angen i arbed £9 miliwn ychwanegol yn 2013-14, a llwyddwyd i arbed £5.5 miliwn. Roedd y cynlluniau arbed yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy fentrau moderneiddio'r gweithlu a mentrau moderneiddio gweithredol. Fodd bynnag, fel y nodwyd isod, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddatblygu'r agenda foderneiddio, ac mae'r pwysau ar y gweithlu a phwysau o ran galw a nodwyd uchod wedi cynyddu'r pwysau ar gostau.

Fel sy'n wir am y gymuned iechyd ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu nifer o heriau ariannol a heriau o ran adnoddau tra'n cydbwyso'r broses o drawsnewid gwasanaethau â'r gwaith o gynnal gwasanaethau. Byddai dyraniadau arian tymor canolig yn helpu i gyda gwaith cynllunio ariannol ac i gyflawni nodau ehangach o ran moderneiddio gwasanaethau

**46.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses dda ar gyfer monitro cyllidebau yn ystod y flwyddyn, gan lunio cynlluniau cyllid blynyddol ac adroddiadau cyllid misol ar gyfer y Bwrdd. Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i gyflwyno'r cylch cynllunio ariannol yn gynharach byth, gan gynnwys nodi cynlluniau arbedion yn gynt, a bydd y gofyniad i lunio cynllun ariannol tair blynedd yn gymorth yn hyn o beth. Gallaf gadarnhau hefyd fod y wybodaeth ariannol a roddwyd i'r Bwrdd yn gyson â'r wybodaeth a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

**47.** Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adeiladu ar y gwaith a wnaed i baratoi cyllideb seiliedig ar sero ar gyfer 2013-14 er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n agos gyda deiliaid cyllidebau lleol i nodi a chyflawni arbedion cost a'u helpu i gyflawni ei hamcanion gweithredol a strategol.

**48.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddibynnu ar arbedion anghylchol byrdymor ac mae'n cydnabod bod angen i gynlluniau ariannol ystyried amcanion tymor canolig a hirdymor yn hytrach na chael eu trafod flwyddyn ar y tro. Mae'n bwysig bod ganddi gynllun ariannol a gydbwysir yn aml ac y caiff hwn ei gynnwys yn ei chynllun tair blynedd. Yn sgil cyflwyno trefniadau comisiynu newydd yr Ymddiriedolaeth, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu ei chynlluniau tymor canolig o fewn y fframwaith newydd.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn gadarn ar y cyfan a disgwylir i Raglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans gael effaith gadarnhaol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei amcanion a'i chynlluniau strategol

Mae fframwaith sicrwydd a rheolaethau mewnol y Bwrdd yn gadarn ar y cyfan ac fe'i hategir gan brosesau craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Yng ngoleuni Rhaglen

Ddiwygio’r Gwasanaeth Ambiwlans, mae’r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei strwythur llywodraethu er mwyn sicrhau ei bod mewn sefyllfa well i newid a diogelu cleifion

**49.** Gwelwyd rhai newidiadau mewn perthynas ag aelodau Bwrdd anweithredol yr Ymddiriedolaeth a chafwyd Cadeirydd dros dro newydd a dau aelod anweithredol dros dro newydd. Llwyddwyd i gynnal dilyniant ac mae’r pum aelod anweithredol sy’n weddill wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd. Deallwn fod rhaglen ddiwygio’r Gwasanaeth Ambiwlans yn cynnwys adolygiad o aelodaeth anweithredol bresennol yr Ymddiriedolaeth. Dechreuodd y cyfarwyddwyr anweithredol newydd eu swyddi ar 1 Ebrill 2016. Bydd yn bwysig i aelodau anweithredol gyda’i gilydd gynnig amrywiaeth o sgiliau a phrofiad er mwyn llywodraethu a chefnogi’r Ymddiriedolaeth yn ddigonol.

**50.** Yng ngoleuni'r rhaglen ddiwygio ac adroddiad Francis, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei threfniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod gan ei fframwaith llywodraethu integredig diwygiedig yr adnoddau a'r gallu i gyflawni'r newid sydd ei angen mewn ffordd strwythuredig ac amserol.

**51.** Diddymwyd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Llywodraethu. Mae'r strwythur llywodraethu ffurfiol bellach yn cwmpasu tair prif ffrwd lywodraethu:

- cyflawni a chraffu - Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, is-bwyllgor ffurfiol, a gefnogir gan baneli Safonau ym maes Iechyd ac Iechyd a Diogelwch;
- swyddogaeth sicrwydd a rheoli risg - Pwyllgor Archwilio, is-bwyllgor ffurfiol; ac
- y dyfodol - Bwrdd Trawsnewid Strategol, er nad yw hwn yn is-bwyllgor ffurfiol, mae'n fwrdd rhaglen gweithredol a fydd yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd.

**52.** Cefnogir y Bwrdd Trawsnewid Strategol gan ffrydiau gwaith gweithredol yn ymwneud â thrawsnewid clinigol, defnyddio adnoddau a datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol.

**53.** Dylai'r strwythur llywodraethu newydd hwyluso ffocws yr Ymddiriedolaeth ar gyflawni newid yn ogystal â'r trefniadau craffu a ddarparwyd gan y strwythur blaenorol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i fonitro perfformiad ei threfniadau llywodraethu a rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn sicrhau'r prosesau craffu a llywodraethu gorau posibl. Dylai swyddogaeth cymorth corfforaethol dda yr Ymddiriedolaeth, sy'n helpu i gyflwyno papurau a phwyntiau gweithredu cyfredol i'r pwyllgorau cywir, hwyluso hyn.

**54.** Lluniodd yr Ymddiriedolaeth ei Datganiad Ansawdd Blynyddol cyntaf ar gyfer 2012-13 ym mis Medi 2013 ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Arweiniwyd y Datganiad gan y Cyfarwyddwr Meddygol gyda chyfraniad pellach gan y tîm gweithredol ac aelodau anweithredol ar ffurf gwaith craffu. Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth Archwiliad Mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar lunio Datganiad Ansawdd Blynyddol cytbwys. Cafodd y Datganiad ei adolygu a'i fabwysiadu gan yr is-bwyllgorau perthnasol ar Bwrdd. Er nad yw'n ofynnol i mi adolygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn fanwl, daeth fy nhîm i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu proses dda o baratoi'r Datganiad hwnnw. Bydd yn bwysig i'r Ymddiriedolaeth barhau i ddilyn proses glinigol gadarn ar gyfer Datganiad 2013-14 sy'n cynnwys canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru.

### Gall cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau, yn enwedig ar lefel weithredol, effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni'r newid sylweddol y mae'r rhaglen ddiwygio yn galw amdano, a gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid, tra'n gwella perfformiad ac yn diogelu cleifion

**55.** Mae'r tîm gweithredol yn cynnwys pum cyfarwyddwr gweithredol a dau gyfarwyddwr. Ar hyn o bryd, mae un swydd wag o fewn y tîm gweithredol ac mae un swydd yn cael ei chyflawni gan swyddog dros dro. Gall diffyg dilyniant effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni'r newid sylweddol y gall y rhaglen ddiwygio ei nodi ac o fewn yr amserlenni

tynn a gynigir.  Mae angen i'r Ymddiriedolaeth lenwi ei swyddi gweithredol gwag cyn gynted â phosibl, er mwyn cynnal sefydlogrwydd ac osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â swyddi dros dro.

Mae'r Ymddiredolaeth wedi gwireddu rhai o fuddiannau'r strwythur sefydliadol diwygiedig, a oedd yn sicrhau bod penaethiaid gwasanaeth wedi'u cysoni'n well ag ardaloedd byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd barhau i gydweithio er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai yn fwy effeithiol a darparu gwasanaethau da i gleifion.

**56.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld rhywfaint o welliant mewn amseroedd trosglwyddo. Nododd yr Ymddiriedolaeth fod canran y trosglwyddiadau o fewn 15 munud wedi cynyddu i 61.3 y cant ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Ionawr 2014, o gymharu â 56.9 y cant ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ionawr 2013. Fodd bynnag, erys amseroedd ymateb Categori A o fewn wyth munud islaw'r targed o 65 y cant a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

**57.** Diwygiwyd y strwythur sefydliadol yn 2012-13 er mwyn sicrhau bod penaethiaid gwasanaeth wedi'u cysoni'n well ag ardaloedd byrddau iechyd. Teimla'r Ymddiriedolaeth fod y strwythur hwn wedi hwyluso trefniadau cydweithio agosach a gwelwyd rhywfaint o welliant. Fodd bynnag, mae rhai byrddau iechyd sydd â materion mewnol blaenoriaeth uwch i fynd i'r afael â hwy, ac mae hyn wedi golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i wneud y cynnydd y byddai wedi dymuno ei wneud. Mae angen dybryd i'r byrddau iechyd a'r Ymddiriedolaeth barhau i gydweithio'n agos er mwyn mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo cleifion fel rhan o'r rhaglen ddiwygio.

**58.** Fel y nodwyd yng ngwaith Asesu Strwythuredig y ddwy flynedd flaenorol, mae angen i'r Ymddiriedolaeth a'i byrddau iechyd gydweithio'n fwy effeithiol, yn enwedig mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo cleifion. Bydd angen i raglen ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i beri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion, o ran y claf sy'n cael ei drin yn ogystal â diffyg argaeledd y criwiau ambiwlans i ymateb i alwadau brys. Roedd cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau'r GIG yn cynnwys cynigion i gau rhai unedau mân anafiadau a gall hyn hefyd effeithio ar amseroedd trosglwyddo.

Mae trefniadau ar waith yn yr Ymddiriedolaeth i gaffael pryderon defnyddwyr a nodi themâu sy'n dod i'r amlwg ac mae wedi gwneud cynnydd wrth gaffael gwybodaeth am brofiadau defnyddwyr er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y ffordd y mae'n defnyddio ac yn ymateb i'r themâu a nodwyd

**59.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth dîm canolog i gaffael ac ymateb i bryderon. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i ymateb yn briodol ac yn amserol i bryderon. Caiff hyn ei fonitro gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd.

**60.** Mae adroddiadau cynnydd mewn perthynas â phryderon yn un o eitemau sefydlog y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a chaiff astudiaethau achos profiad cleifion a phwyntiau gweithredu sy'n deillio ohonynt eu cyflwyno ar ddechrau pob un o Fyrddau'r Ymddiriedolaeth.

61. Nododd asesiad Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru (WRPS) fod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n dda â rheoliadau'n ymwneud â phryderon a bod ganddi fframwaith da ar y cyfan ar gyfer delio'n briodol â phryderon. Fodd bynnag, nododd WRPS y dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ymhellach y ffordd y mae'n gwerthuso ac yn dysgu o bryderon yn ogystal â'i hasesiadau o effeithiolrwydd camau a gymerwyd i fynd i'r afael â themâu sy'n dod i'r amlwg.

**62.** Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ceisio casglu gwybodaeth am brofiad defnyddwyr drwy nifer o lwybrau, gan gynnwys:

- arolygon o brofiad defnyddwyr (cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) drwy’r Tîm Partneriaid mewn Gofal Iechyd;
- fframwaith canlyniadau’r GIG (ffrwd waith gofal heb ei drefnu), prosiect ’Talk Care’;
- cyfleuster adborth ar y wefan - ’Dweud eich Dweud’.

**63.** Mae’r Ymddiriedolaeth wrthi’n llunio ’Adroddiad ar Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau’ mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, a fydd ar gael i’r cyhoedd, gan ddefnyddio gwybodaeth am brofiadau defnyddwyr a gasglwyd o’r ffynonellau uchod.

**64.** Mae angen i’r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn defnyddio adborth a data cleifion i nodi themâu sy’n dod i’r amlwg ac yn defnyddio’r wybodaeth ymhellach er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.

### Mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion gwaith archwilio Asesiad Strwythuredig blaenorol, er bod angen cymryd camau pwysig o hyd mewn rhai meysydd allweddol

**65.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi dangos mai prin fu’r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i’r afael â meysydd i’w datblygu a nodwyd yng ngwaith blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal â’r cynnydd a nodwyd uchod ceir crynodeb isod o gynnydd wrth weithredu pwyntiau gweithredu eraill Asesiad Strwythuredig 2012.

**66.** Mae’r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei threfniadau llywodraethu fel y nodir uchod. Nodwyd bod nodi a rheoli risgiau yn faes i’w adolygu mewn blynyddoedd blaenorol, er mwyn sicrhau bod risgiau’n gyson ag amcanion strategol.  Yn gyffredinol, dylai’r trefniadau diwygiedig fynd i’r afael â’r argymhellion.

**67.** Fel rhan o Asesiad Strwythuredig 2012, nodais fod y Bwrdd a’i is-bwyllgorau wedi cael gafael ar y wybodaeth reoli berthnasol er mwyn cynllunio, gwneud penderfyniadau ac ategu prosesau craffu a sicrwydd bwrdd effeithiol. Mae lle i wella amseroldeb
rhywfaint o’r wybodaeth am berfformiad clinigol a roddir i is-bwyllgorau o hyd yn ogystal
 â rhoi gwybodaeth feincnodi briodol i’r Bwrdd i’w helpu i graffu ar berfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Nodais yn flaenorol hefyd yr angen i ddatblygu cynlluniau tair blynedd cadarn. Mae hyn wedi dod yn bwysicach fyth o ystyried pwysigrwydd canolog y cynlluniau hyn wrth sicrhau’r hyblygrwydd ariannol sy’n gysylltiedig â sicrhau dyraniadau ariannol tair blynedd. Nodir y cynnydd a wnaed yn y maes hwn ac mewn perthynas â phwyntiau gweithredu eraill Asesiad Strwythuredig 2012 yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2:

| Pwynt gweithredu 2012 | Cynnydd yr Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Cytuno ar ddull o bennu adnoddau gan WHSSC/Comisiynwyr ar gyfer y tymor canolig. | Fel y nodwyd uchod, ar adeg ysgrifennu, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cael yr hyblygrwydd ariannol tair blynedd gan Lywodraeth Cymru gan awgrymu bod angen gwneud gwaith i atgyfnerthu gwaith cynllunio integredig er mwyn goresgyn y rhwystr hwn sy'n weddill i waith cynllunio tymor canolig a hwyluso newid gweithredol. |
| Mae angen gwella'n barhaus er mwyn sicrhau y caiff data ei gaffael mewn modd amserol a'i gyflwyno'n glir yn y Cerdyn Sgorio Perfformiad ac y caiff y cerdyn sgorio hwn ei roi i'r aelodau anweithredol yn rheolaidd. | Mae'r cerdyn sgorio perfformiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad sydd ar gael. Fel arfer, mae'r data a gofnodir yn fis oed. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata clinigol yn bodoli ers deufis neu dri. Felly, mae cynnydd i'w wneud o hyd. |
| Byddai arolygon cleifion rheolaidd yn helpu i driongli gwybodaeth a chynnydd gyda phrofiad cleifion. Posibilrwydd o gydweithio â byrddau iechyd. | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wella'r ffordd y mae'n caffael profiadau cleifion er mwyn monitro perfformiad. |
| Hoffai aelodau anweithredol weld mwy o gymaryddion perfformiad â gwasanaethau ambiwlans eraill. | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi cyfleoedd i feincnodi perfformiad â gwasanaethau ambiwlans eraill o hyd. |

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth gadarnhau ei strategaethau craidd sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a sefydlu nifer o weithgorau er mwyn datblygu a gweithredu cynlluniau allweddol ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r cynlluniau hyn yn effeithiol a chyflawni'r newid a ddymunir yn her sylweddol

**68.** Nodais nifer o argymhellion mewn blynyddoedd blaenorol ynghylch thema Asesiad Strwythuredig perfformiad y gweithlu a pherfformiad gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio a chymeradwyo ei strategaethau craidd ac wedi eu dwyn ynghyd yn ei chynllun blynyddol ar gyfer 2014-15. Mae gwaith yn parhau rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau tymor canolig cadarn a chynaliadwy sy'n cwmpasu'r tair blynedd ariannol nesaf.

**69.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei Rhaglen Trawsnewid Clinigol er mwyn darparu'r gwasanaeth cywir, y gofal cywir, yn y man cywir, ar yr adeg gywir. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu nifer o weithgorau, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, fel tîm y prosiect adolygu rhestrau dyletswyddau, er mwyn datblygu ei chynlluniau ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gweithredu ei chynlluniau ar gyfer y gweithlu yn her sylweddol.

**70.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn delio ag amryw o flaenoriaethau i gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Clinigol, rhaglen ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans a chynnal a gwella

perfformiad gweithredol, tra'n gweithredu â gallu cyfyngedig a all atal cynnydd amserol.  Bydd fy ngwaith archwilio perfformiad lleol yn yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r risgiau a'r rhwystrau lefel uchel i gyflawni'r cynlluniau hyn.

**71.** Erys cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn uchel, gan amrywio o 7.3 y cant ym mis Medi 2013 i 8.7 y cant ym mis Ionawr 2014. Nododd yr Ymddiriedolaeth y byddai hyn yn costio
£4.6 miliwn ar gyfer y 10 mis hyd at fis Ionawr 2014. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro lefelau salwch yn ofalus; cyflwynir adroddiadau ar salwch yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Chyflawni a chânt eu cynnwys yn y dangosfwrdd perfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd. Cyflwynwyd y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ym mis Tachwedd 2013 a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth fonitro canlyniad y mentrau i fynd i'r afael ag absenoldeb a'r defnydd o'r Cyfleuster Iechyd Galwedigaeth a'r Grŵp Lles er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau'n effeithiol o ran rheoli a gostwng lefelau absenoldeb.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll

**72.** Ymarfer paru data sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac fe'i cynhelir bob dwy flynedd. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

**73.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2012. Cafodd y data eu paru a chyhoeddwyd y canlyniadau i'r cyrff dan sylw ym mis Ionawr 2013.

**74.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter, gan ymchwilio i'r holl barau data allweddol yn brydlon ac nid dim ond y parau data a argymhellir a gynhyrchir gan ymarfer paru data'r Fenter. Ni nodwyd unrhyw gamgymeriadau na thwyll yn ystod ymchwiliadau'r Ymddiriedolaeth.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | 30 Mai 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 27 Mehefin 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | 18 Medi 2013 |
| Datganiad Sicrwydd ar Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 3 Medi 2013 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Elusen GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 7 Hydref 2013 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2012 | 30 Mai 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 | 2013 Mai 2013 |

Hefyd, mae dau archwiliad o berfformiad yn mynd rhagddynt o hyd yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir hyn isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans - Adolygiad Risg | Mawrth/Ebrill 2014 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £119,260 (heb gynnwys TAW). Mae'r ffi wirioneddol yn unol â'r cynnig hwn o £119,260 (heb gynnwys TAW).

# Atodiad 3

## Risgiau archwiliad ariannol

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 y risgiau archwilio ariannol allweddol ar gyfer 2013. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio ariannol | Canlyniad |
|---|---|
| Mae'r **amserlen** ar gyfer llunio ac ardystio'r **cyfrifon blynyddol** yn dal i fod yn heriol.<br>Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth roi trefniadau priodol ar waith i baratoi'r cyfrifon a sicrhau y darperir papurau gwaith digonol i'w harchwilio yn amserol.<br>Caiff y **cyfrifon blynyddol** eu llunio o dan **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG**. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r **gofynion** hyn, gan sicrhau bod ganddi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a sicrhau bod risgiau a materion yn cael eu nodi a'u trin yn briodol. | Gweler paragraffau 24 i 28. |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i sicrhau bod **cofnodion cyfrifyddu** a **rheolaethau mewnol** cadarn ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion. | Gweler paragraffau 24 i 28. |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth **ddyletswydd ariannol** i sicrhau ei bod yn mantoli'r gyllideb yn ystod y cyfnod dan sylw ac yn barhaus. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau rheolaeth ariannol dda yn ystod y cyfnod dan sylw er mwyn cyflawni ei thargedau ariannol ei hun ar gyfer 2012-13. | Gweler paragraffau 32 i 38. |
| **Mae angen trefniadau llywodraethu ariannol cryf** ar yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei chyllid yn unol â'r canllawiau yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru. | Gweler prif gorff yr Adroddiad Archwilio Blynyddol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk